# Ffurflen gwyno

## Cod Ymddygiad

Ombwdsmon Ombudsman
Cymru • Wales

Rydym yn croesawu cwynion yn y Gymraeg. Ni fydd cwyno yn y Gymraeg yn arwain at unrhyw oedi.

Defnyddiwch inc du os oes modd a nodwch eich enw mewn LLYTHRENNAU BRAS.

### A Eich manylion

Enw a theitl

Cyfeiriad a cod post

Ebost

Rhif ffôn cyswllt yn ystod y dydd

Rhif ffôn symudol

Sut hoffech chi i ni gysylltu â chi?

☐ Ebost*

☐ Post

☐ Ffôn

Dewiswch eich iaith ddewisol ar gyfer cyfathrebu â ni.

☐ Saesneg

☐ Cymraeg

Arall - nodwch:

*Mae ebost yn ffordd gyflym ac effeithlon o gyfathrebu, ond fe ddylech chi fod yn ymwybodol bod risg fach bob amser o negeseuon yn cael eu rhyng-gipio. Fel rhagofal, byddwn yn anfon gwybodaeth sensitif neu gyfrinachol drwy ebost diogel Microsoft 365 wedi'i amgryptio. Mae rhagor o fanylion ar gael ar ein gwefan.

Weithiau, byddwn yn derbyn cwynion na allwn edrych arnynt. Gallai pobl fod yn anhapus pan fydd rhaid i ni ddweud hyn wrthynt. Er mwyn osgoi cael eich siomi, cyn cyflwyno'ch cwyn, mae'n ddefnyddiol os gallwch chi feddwl am sut mae'r aelod rydych chi yn cwyno amdano wedi torri'r Cod Ymddygiad. Dewch o hyd i fwy o wybodaeth am y Cod Ymddygiad ar ein gwefan ar dudalen 'Gwybodaeth i gynghorwyr'. Rydym hefyd yn argymell eich bod yn darllen y taflenni ffeithiau canlynol ar ein gwefan:

- Dewch o hyd i fwy o wybodaeth gyffredinol
- Dysgwch fwy am yr hyn a wnawn pan dderbyniwn eich cwyn am ymddygiad cynghorydd lleol
- Dysgwch fwy am sut rydym yn asesu budd y cyhoedd

Mae'n bwysig darparu cymaint o dystiolaeth uniongyrchol a phosibl er mwyn cefnogi unrhyw gwyn, yn ogystal ag enwau a manylion cyswllt unrhyw dystion sy'n berthnasol i'ch cwyn.

Fel rheol, dylai'r person sydd wedi profi'r broblem lenwi'r ffurflen. Os ydych yn llenwi'r ffurflen ar ran rhywun arall, llenwch adran B.

## B Gwneud cwyn ar ran rhywun arall: eu manylion

Eu henw llawn

Cyfeiriad a chod post

Beth yw eich perthynas â hwy?

Pam ydych chi'n gwneud cwyn ar eu rhan?

Ebost

Rhif ffôn cyswllt yn ystod y dydd

Rhif ffôn symudol

**Awdurdodiad**

**Os ydych yn cwyno ar ran rhywun arall, mae rhaid iddynt lofnodi yma os ydynt yn gallu gwneud hynny. Os nad ydynt yn gallu gwneud hynny, esboniwch pam.**

Dylech hefyd eu darparu a'r Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer Achwynwyr & Chynrychiolwyr, er mwyn sicrhau eu bod yn deall y ffordd y prosesir eu gwybodaeth bersonol. Byddwn yn tybio eich bod chi wedi eu darparu a'r hysbysiad. Gweler Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer Achwynwyr & Chynrychiolwyr ar ein gwefan.

Rwy'n awdurdodi'r person a restrir uchod (adran A) i weithredu ar fy rhan wrth gyfwyno cwyn i'r Ombwdsmon Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru. Rwy'n deall y gallai hyn olygu y bydd fy nghynrychiolydd yn gallu cael mynediad at fy ngwybodaeth bersonol neu at wybodaeth bersonol sensitif amdanaf a gafwyd ar gyfer un o'r dibenion hyn.

Eu llofnod

Dyddiad

## C Am bwy ydych chi'n cwyno?

Enw'r aelod rydych chi'n ystyried ei fod wedi torri'r Cod Ymddygiad. Os yw eich cwyn yn ymwneud a mwy nag un aelod, bydd angen i chi cyfwyno ffurflen gwyno ar wahân ar gyfer pob un.

Enw'r awdurdod

Esboniwch ym mha ffordd mae'r unigolyn wedi torri'r Cod Ymddygiad. Dywedwch pa neu cyfeiriwch at y paragraffau o'r "Cod" rydych chi'n meddwl y maen nhw wedi torri. Hefyd, dylech gynnwys enwau a manylion cyswllt unrhyw dystion sy'n berthnasol i'ch cwyn.

### Dogfennau ategol

Wrth gyflwyno cwyn ini bod aelod wedi torri'r Cod Ymddygiad, mae'n hanfodol darparu cymaint o dystiolaeth uniongyrchol â phosib i gefnogi unrhyw gwyn.

## D Diwallu eich anghenion

Rhowch wybod i ni os ydych angen i ni addasu'r ffordd yr ydym yn cyfathrebu â chi. Os yw unrhyw beth yn ei gwneud hi'n anodd i chi ddefnyddio ein gwasanaeth, er enghraifft, os oes gennych anabledd, esboniwch yn yr adran isod.

Rydym yn ystyried a yw eich cais yn rhesymol ac addas o dan yr amgylchiadau. Mae hyn oherwydd bod angen inni ddefnyddio arian cyhoeddus yn ofalus.

Os nad oes angen unrhyw gymorth arnoch, gadewch yr adran hon yn wag.

## E Caniatâd

Rwy'n dymuno i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ystyried fy nghwyn. Rwy'n deall y bydd fy ffurflen gwyno a'r holl ddeunydd a gyflwynir gyda hi (gan gynnwys fy hunaniaeth) yn cael eu datgelu'n llawn i'r aelod rwy'n gwneud cwyn yn ei erbyn, ac y gallai'r wybodaeth hon ddod yn wybodaeth gyhoeddus. Fel rheol, bydd yr wybodaeth hon hefyd yn cael ei datgelu i'r Swyddog Monitro a Chlerc y Cyngor priodol (lle bo'n berthnasol).

Rwy'n deall y gallai fod yn ofynnol i mi roi tystiolaeth lafar yn gyhoeddus i ategu fy nghwyn gerbron Pwyllgor Safonau'r awdurdod, neu gerbron unrhyw dribiwnlys achos a all gael ei benodi i ystyried unrhyw adroddiad y gall yr Ombwdsmon ei gyhoeddi os bydd yn penderfynu ymchwilio i'm cwyn.

Llofnod

Dyddiad

Wrth ystyried eich cwyn, bydd yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn prosesu eich gwybodaeth bersonol. Mae rhagor o wybodaeth ynghylch sut ydym yn prosesu eich gwybodaeth bersonol ar gael yn yr Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer Achwynwyr & Chynrychiolwyr. Gweler y Hysbysiad Preifatrwydd ar ein gwefan.

**Argraffwch y ffurflen hon a'i hanfon at:**

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**
**1 Ffordd yr Hen Gae**
**Pencoed**
**CF35 5LJ**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, ffoniwch ni:
0300 790 0203 (cost galwad lleol)